## Llythyr enghreifftiol i hysbysu gweithiwr ei fod yn destun ymchwiliad disgyblu

Mae'r llythyr yn cyfeirio at 'Eich Canllaw i Ymchwiliad Disgyblu' – a allwch chi atodi copi PDF o'r canllaw pan fydd y llythyr ffurfiol yn cael ei gyhoeddi. Mae ar gael o: https://www.nhsconfed.org/wales/nhs-wales-employers/welsh-partnership-hub/nhs-wales-disciplinary-policy-and-process-2026

---

[Dyddiad]

[Enw a chyfeiriad]

Annwyl [Enw],

Diolch i chi am gyfarfod â mi a [Enw] ar [Dyddiad]. Rwy'n ysgrifennu i esbonio'r hyn a drafodwyd gennym ac i roi rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol i chi.

**Yr hyn y buom yn siarad amdano**
Yn ein cyfarfod, fe wnaethon ni siarad am y pryder a godwyd ynghylch [mewnosodwch ddisgrifiad byr o'r pryder(on)].

Esboniais fy mod eisoes wedi casglu rhywfaint o wybodaeth am yr hyn sydd wedi digwydd. Gelwir hyn yn asesiad canfod ffeithiau ac rydych chi wedi rhoi rhywfaint o wybodaeth i mi fel rhan o hynny.

Rwyf wedi adolygu'r wybodaeth a gasglwyd hyd yn hyn ac wedi penderfynu bod angen rhagor o wybodaeth arnaf cyn i mi benderfynu beth fydd angen i ni ei wneud i ddatrys y pryder(on).

**Yr hyn mae'n ei olygu**
Byddaf yn gofyn/Rydw i wedi gofyn [dewiswch pa un] i dîm o ddau berson (a elwir yn dîm yr ymchwiliad) ddilyn y camau ym Mholisi a Phroses Disgyblu GIG Cymru a chasglu gwybodaeth i ddeall y darlun llawn o'r hyn sydd wedi digwydd a pham - gelwir hyn yn ymchwiliad.

Y tîm ymchwilio yw [mewnosodwch eu manylion os ydych chi'n eu hadnabod], rheolwr sy'n gweithio yn y sefydliad a [mewnosodwch eu manylion os ydych chi'n eu hadnabod] sy'n aelod o'n tîm Adnoddau Dynol.

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**

1. Bydd y tîm ymchwilio yn egluro sut y byddan nhw'n casglu'r wybodaeth mewn cynllun ymchwilio. Byddan nhw'n rhoi copi o hyn i chi.

2. Bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal mor deg a chyn gynted â phosibl a chewch gyfle i ddarparu rhagor o wybodaeth. Rydw i wedi rhoi eich manylion cyswllt i'r tîm ymchwilio fel y gallant gysylltu i drefnu hyn gyda chi.

3. Unwaith y bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, bydd y tîm yn crynhoi'r holl wybodaeth a gasglwyd mewn adroddiad ysgrifenedig.

4. Byddaf yn defnyddio'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn i benderfynu'r hyn a fydd angen i mi ei wneud i ddatrys y pryder(on). Gallai hyn gynnwys trefnu rhywfaint o hyfforddiant pellach, neu gymorth arall, neu efallai y bydd angen i mi ofyn i rywun ystyried y pryder(on) mewn gwrandawiad disgyblu ffurfiol.

5. Byddaf yn cwrdd â chi pan fyddaf wedi darllen yr adroddiad a byddwn yn trafod yr hyn rwy'n credu fydd angen digwydd nesaf.

**Beth ddylech chi ei wneud nawr?**

1. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi siarad â'ch cynrychiolydd Undeb Llafur cyn gynted â phosibl. Os nad ydych chi'n aelod o undeb llafur, gallwch ofyn i gydweithiwr eich cefnogi. Rwyf wedi cynnwys ail gopi o'r llythyr hwn i chi ei rannu gyda chynrychiolydd eich undeb llafur, gan y bydd yn ddefnyddiol iddyn nhw weld yr hyn sydd wedi cael ei ddweud wrthych.

2. Pan fydd y tîm ymchwilio yn cysylltu â chi, rhowch wybod iddyn nhw enw a manylion cyswllt unrhyw un a fydd yn eich cefnogi yn ystod yr ymchwiliad, fel y gallant eu cynnwys wrth drefnu cyfarfod â chi.

3. Os ydych chi'n credu bod unrhyw un a all ddarparu gwybodaeth neu os oes unrhyw wybodaeth arall a fydd o gymorth i'r tîm ymchwilio ddeall yr hyn sydd wedi digwydd a pham, dylech chi roi gwybod i'r tîm ymchwilio, fel y gallant drefnu i gael yr wybodaeth hon.

**Sut gallwn ni eich cynorthwyo chi**

Rwy'n gwybod y gallai hyn deimlo'n ofidus neu'n llawn straen. Dydych chi ddim ar eich pen eich hun ac mae cefnogaeth ar gael i chi:

**1. Cymorth Llesiant**

Rwyf wedi amgáu/atodi copi o 'Eich Canllaw i Ymchwiliad Disgyblu' sy'n egluro'r broses a'r hyn y gallwch ei ddisgwyl, ynghyd ag atebion i gwestiynau a allai fod gennych. Rwyf hefyd wedi cynnwys manylion pobl a all eich cefnogi yn ystod y

cyfnod hwn. Maen nhw wedi'u hyfforddi'n arbennig i gefnogi pobl ac ni fyddan nhw'n dweud wrth unrhyw un os byddwch chi'n cysylltu â nhw.

**2. Eich cynrychiolydd undeb llafur**
Os ydych chi'n aelod o undeb llafur, gallant eich cefnogi drwy wrando arnoch chi ac ateb cwestiynau fydd gennych chi. Gallan nhw ddod i gyfarfodydd am hyn gyda chi.

**3. [Enw], eich person cyswllt enwebedig**
Bydd [Enw] yn cadw mewn cysylltiad â chi'n rheolaidd [nodwch pa mor aml, e.e., yn wythnosol]. Er na allant drafod manylion yr ymchwiliad, maen nhw yma i wirio sut rydych chi ac fe fyddan nhw’n eich tywys at gymorth y gallech fod ei angen.

**Cadw pethau'n gyfrinachol**
Nid oes angen i'ch cydweithwyr wybod beth sy'n digwydd. Efallai y gofynnir iddyn nhw ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr ymchwiliad (naill ai oherwydd eich bod chi wedi gofyn am hyn neu oherwydd bod y tîm ymchwilio yn meddwl y gallant helpu). Os gofynnir iddynt ddarparu gwybodaeth, gofynnir iddynt wneud hyn yn gyfrinachol a pheidio â thrafod hyn ag unrhyw un heblaw'r tîm ymchwilio. Gofynnaf i chi hefyd gadw hyn yn gyfrinachol, os gwelwch yn dda. Gallwch siarad â'r bobl a enwir yn y llythyr hwn, wrth gwrs, a all eich cefnogi.

**Rhagor o wybodaeth**
Mae copi o Bolisi a Phroses Disgyblu GIG Cymru ar gael ar fewnrwyd y sefydliad. Os byddai'n well gennych gopi papur, rhowch wybod i mi a byddaf yn hapus i anfon un atoch.

Rwyf wedi amgáu crynodeb o fy nghanfyddiad o’r ffeithiau a'r canllaw sy'n esbonio rhagor am y broses ymchwilio.

Os oes gennych gwestiynau, pryderon neu os hoffech siarad, cysylltwch.

Cofion gorau,

**[Eich enw]**
[Teitl eich Swydd]

Amgaeadau:
- Copi ychwanegol o'r llythyr
- Crynodeb o'r Asesiad Canfod Ffeithiau
- Polisi a Phroses Ddisgyblu GIG Cymru
- Eich Canllaw i Ymchwiliad Disgyblu